

TRYCHINEB FEIDIOG ISA' - CWM DOLGAIN

gan

Keith T. O'Brien

Cyflwyniad

Y peth cyntaf mae rhywun yn sylwi ar yw llonyddwch a thawelwch Cwm Dolgain, neu'r "Ranges" ar lafar gwlad, sef y cwm sy'n cychwyn wrth odra Gallt y Darren ac yn diweddu yn Pistyll Cain trwy gwmpo cant a hanner o droedfeddi i ymuno a'r Fawddach. Cwm coediog a rhamantus yn llawn o feicwyr mynydd yn ei rhan isaf a ffriddoedd uchel, agored ac anial yn y rhan uchaf, ymhle mae'r defaid yn fwy lluosog na'r beicwyr a'r bwncath yn arglwyddiaethu yn lle sgrech y coed.

Hyd at ddiwedd pumdegau'r ganrif ddiwethaf, am bron hanner can mlynedd, gwelwyd baneri coch yn chwifio ar dop y bryniau ac ergydion gynnau mawr a chwiban magnelau yn torri trwy'r awyr cyn claddu eu hunain yn y mawndir ar ffriddoedd Dol Moch, Bryn-Pierce ac Harry Howel nid nepell o *Danger Farm* - ond stori arall ydi honno ac fe gewch hi yn y gyfrol nesaf!

Danger Farm!

Danger Farm gelwid Feidiog Isa' gan y milwyr, dim ond un o nifer o dyddynnod a hafodydd a ffurfiau cymuned Cwm Dolgain ydoedd. Cyn i'r fyddin gymryd y cwm drosodd ym 1903 y rhain oedd y prif anheddau, gan gychwyn ym mhen uchaf y cwm: Buarth Brwynog, Hafod y Garreg, Nant Lliwgys, Dol Moch Isaf, Dol Moch Uchaf, Feidiog Uchaf, Feidiog Ganol, Feidiog Isaf, Hafoty'r Plas (neu Foty Llelo ar lafar), Gelli Gain, Dol Mynach Uchaf a Llech Idris.

Mae tristwch rhyfeddol yn taro rhywun wrth feddwl fod digwyddiadau'r byd mawr wedi arwain at ddiwedd ffordd o fyw i gymdogion Cwm Dolgain, cwm anghysbell a diarffordd, cwm llawn bywyd, chwerthin a chwys llafur wrth fynd ati yn feunyddiol i ail-adrodd gorchwyl eu tadau a'u cyndadau o'r wawr hyd fachlud haul. Ond yn fwy trist yw hanes Feidiog Isa' un mlynedd ar hugain cyn i'r soldiwrs gyrraedd, pan chwalwyd y lle gan daranfollt a lladd dau o blant bach. Dyma'r hanes:

Natur Didostur

Nid yw Tachwedd yn nodedig am dywydd da ar y gorau, ryw fis llaith a niwlog yn ôl traddodiad, ond am hanner awr wedi un yn y pnaun ar yr 8fed o Dachwedd 1882 bu i natur ddangos ei hochr dinistriol a didostur trwy storm o fellt a tharanau ofnadwy allai neb gofio mo'i thebyg erioed o'r blaen. Cymaint oedd ffyrnigrwydd y storm fel i Edward Morris, bugail Dol Moch, alw yn Feidiog Isa' i lochesu rhag y tywydd dychrynlyd. Croesawyd ef i mewn gan feistr y tŷ sef David Jones, yr hwn fyddai'n rhaid wynebu profedigaeth fwyaf ei fywyd mewn ychydig funudau. 'Roedd ei wraig, Gwen, wedi mynd ar neges i'r pentre' gyda'i chymydog, Ann Williams, Dol Mynach, a hynny y tro cyntaf iddi adael y tŷ ers misoedd oherwydd gwaeledd.

Tŷ wedi ei adeiladu gyda'r simdde yn y canol ydoedd, ffordd effeithiol iawn o rannu gwres i bob ystafell. Yn ôl y sôn, ar y pryd, 'roedd David Jones ac Edward Morris wrth ffenestr y talcen, Lizzie, y ferch wrth fwrdd gyferbyn â'r ffenestr ffrynt, wrth yr aelwyd 'roedd y ddau fachgen ieuengaf a'r mab arall gyda'i dad. Dyma'r olygfa yn nrama greulon natur, pan, mewn tariat amrant chwalodd y simdde'n deilchion a dod a llawr y llofft i lawr gydag ef a chladdu'r ddau

fachgen ieuengaf o dan bentwr pedair troedfedd a hanner o rwbel. Taflwyd Lizzie i ochr arall yr ystafell a'i haelodau yn sownd yn y malurion a'i phen wrth ymyl ci Edward Morris a oedd yn farw wrth y dreser - ond yn rhyfeddol 'roedd Lizzie'n fyw! 'Roedd ei brawd deg oed, David, hefyd ar lawr gyda llosgiadau trwm arno. Y cymydog, Edward Morris, wedi ei frawychu mor ofnadwy nes iddo fethu canolbwyntio na gwneud dim - ei wallt, locsen a'i ddwylo wedi llosgi'n ddirifol. 'Roedd David Jones, y tad, yn ffodus i ddianc gyda dim ond ychydig ddeifio i'w wallt.

Cychwynnodd David Jones glirio i ryddhau Lizzie ar unwaith a hithau'n wylo'n ddi-baid a thorcalonnus o golli ei dau frawd arall. Rhoddodd Lizzie a David, y mab, yng ngofalaeth Edward Morris er mwyn iddo fynd a hwy i Dol Moch, gan gychwyn wedyn ceisio cyrraedd y ddau frawd arall. Ond 'roedd y dinistr yn ormod i un dyn glirio, felly rhaid oedd ei gadael a mynd i chwilio am gymorth at gymydog arall sef William Williams, Dol Mynach. Daeth ryw nerth mewnlol rhyfeddol ato, ac yntau mewn galar a gofid mawr, i'w alluogi i ddweud beth oedd wedi digwydd wrth ei gymydog.

“A oes neb o'r teulu yn fyw?”

Bu i William Williams hel tri neu bedwar o gymdogion eraill at ei gilydd i ddychwelyd i Feidiog Isa' er mwyn cyrraedd a rhyddhau cyrff y plant. Tua'r un pryd yn dod o Foty Llelo, ar ochr arall y cwm, ac yn ymladd ei ffordd trwy'r llifogydd oedd Ellen Roberts. 'Roedd hi wedi gweld y difrod o bell ac wedi rhuthro yno i gynorthwyo mor fuan a medrai. Bu iddi gyfarfod y fintai fach o Ddol Mynach nid nepell o'r tŷ a sylwodd nad oedd yr un enaid byw i weld yno, gofynnodd yn bryderus a chwerw, “A oes neb o'r teulu yn fyw?”

Cymaint oedd y difrod apocalyptaidd, un mlynedd ar hugain yn ddiweddarach byddai'n bosib maddau i rywun feddwl fod sielsan anferth wedi taro'r adeilad. Fel oeddent yn dynesu at y tŷ roedd yn anodd iddynt gymryd stoc o beth oeddent yn ei weld, coed a cherrig wedi eu taflu hyd at ddau gant o lathenni oddi wrth y tŷ, defaid wedi eu lladd a'u llosgi'n drwm. Y ddaear yn rychau drosto a rheini'n mynd i bob cyfeiriad, y pridd a'r gwair wedi llosgi hefyd. Y ffenestri a'r drysau wedi eu malu'n yfflon. Gwelwyd dodrefn, llestri a dillad yn gymysg â'r coed a'r cerrig a rheini yn un pentwr fel golygfa o'r Blitz.

Aberth “Coli”

Cymerodd awr a hanner i dri o ddynion ddarganfod y plant. Roeddent dan yr argraff eu bônt wedi gweld gwallt un o'r plant pan sylweddolasant mai “Coli” yr ast ffyddlon a gwerthfawr oedd hi. Gorweddai “Coli” ar frest ac wyneb Morris bach, pump a hanner mlwydd oed, fel petai'n aberthu ei bywyd i geisio ei arbed ef. Gorweddai'r bachgen yno'n hollol ddianaf ac eithrio ychydig o losg ar ei glustiau a'i wallt ac yn dal yn ei law oedd ei fwa saeth bychan.

Wrth glirio ychydig mwy daethpwyd o hyd i Robert bach annwyl oedd yn flwydd a hanner oed. 'Roedd argraff y fellten yn drwm ar ei wddf a'i wyneb bach tlws.

Cludwyd cyrff y rhai bychain at eu teulu i Ddolmynach, ymhle roeddent yn cael nodded yn eu hawr dywyll. Bu i G.J. Williams, Ysw. Crwner y Sir gynnal cwest a dychwelwyd rheithfarn yn unol â'r amgylchiadau a nodwyd uchod.

Maent wedi eu claddu ym meddrod y teulu yng nghapel Penstryd, carreg bedd digon syml heb unrhyw gyfeiriad i'r trasiedi arni. Ar y bedd ceir y geiriau canlynol:

Er Cof Am
Morris mab David a Gwen
Jones Defeidiog Isaf yr hwn
A fu farw Tachwedd 8ed 1882
Yn 6 Blwydd Oed
Hefyd Robert eu mab yr hwn a fu
Farw yr un Dydd yn 1 Flwydd Oed

Wrth eu hochr mae bedd eu mam, Gwen, bu iddi farw ar y 23ain Mawrth 1891 yn 54 mlwydd oed. Ar ôl ei marwolaeth symudodd David, ei gŵr, i fyw i Gae March, Llanfachreth. Cartref Siôn Ellis, tad Gwen, oedd Feidiog Isaf a sonnir i'r tŷ gael ei adeiladu yn 1857.

Y Safle Heddiw

Yn anffodus nid oes unrhyw olion gweledol o Feidiog Isaf bellach i'w canfod ar y safle yn bennaf oherwydd ymdrechion y Comisiwn Coedwigaeth yn saithdegau'r ganrif ddiwethaf, pryd blannwyd cannoedd o goed yno. Ond, hyd yn oed petai olion yr adeilad yno, a'i hwn oedd safle'r Feidiog Isaf cafodd ei daro gan fellten? Mae'n eithaf rhwydd darganfod y safle o'r lluniau milwrol sy'n bodoli - ond, mae map Arolwg Ordnans (AO) o'r 19eg ganrif yn dangos ei leoliad i fod tua 300 llath i'r de ac ar ochr gorllewinol Nant Hir, nid yr ochr ddwyreiniol! Efallai i'r AO gael enwau ein tai a'n strydoedd yn anghywir, ond mae eu mapiau yn rhai dibynadwy iawn rhan cywirdeb nodweddion daearyddol, hyd yn oed yr hen fapiau. Felly, oedd Feidiog Isaf wedi ei ail-adeiladu ar ôl y fellten ar safle gwahanol ond gyda'r un dyluniad o gorn canolog? Os oes rhywun yn gwybod byddwn yn falch o glywed gennyh.

Diwedd glo

Hoffwn ddatgan fy niolch i'r cyfaill Gwilym Williams, Bryn Llefrith, am ddod ar hanesyn trist ond diddorol yma i'm sylw trwy gyfrwng copi o'r "Faner" o 1882. Dyfynnaf ran o erthygl gan y diweddar William Williams Ysw, Brynlllefrith, sy'n egluro mwy am yr unigolion a'u cysylltiadau fel a ganlyn:

"Brodor o Lanuwchllyn oedd Edward Morris, bugail Dol Moch. Yr oedd yn daid i Haf Morris, Dr Iwan Morris a'r gwyddonydd Dewi Morris, B.A. Lizzie y ferch a arbedwyd oedd mam y bardd Morris Jones, Gyfannedd, Arhog (gynt) sydd wedi priodi Kathi, chwaer Hedd Wyn. Mam Martin Luther Jones, gorsaf-feistr olaf Trawsfynydd, oedd Miss Williams oedd gyda Gwen Jones pan ddigwyddodd y trychineb. Erbyn heddiw y mae llawer o ddisgynyddion Dafydd a Gwen Jones yn fawr eu parch yng nghyffiniau y Bala fel yn Nhrawsfynydd; dim ond nodi un fe ddeuir o hyd i'r gweddi.

Mab nad oedd adref ar ddiwrnod y trychineb oedd Evan, sef tad Ellen Roberts, priod y diweddar arwr Tryweryn, Dafydd Roberts, Cae Fadog. Y mab a arbedwyd wrth ochr ei dad oedd o'r un enw ag ef, sef Dafydd Jones, Yr Ynys, Dyffryn, a symudodd o Ddolgain pan ddaeth y milwyr i feddiannu'r cwm. 'Roedd craith y fellten ar ei war o hyd. 'Roeddynt fel teulu yn denoriaid da, ac wrth gwrs, taid i Mrs D.M. Davies, Glantegid, oedd William Eden Williams, y bardd o Ddolmynach, lle bu'r teulu anffodus yn aros am chwe mis yn yr hen dy. Clywais fy nhad yn dweud mai tair mellten fawr a fu, a chafwyd gaeaf anarferol o galed ar ôl hynny."

Yn y rhifyn nesaf byddaf yn symud ymlaen cenhedlaeth i gyfnod y milwyr yn, "Maes y Magnelau Trawsfynydd - Hanes y Camp a'r Ranges".